CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION
MEDI 2014

DYDDIAD	Nos Fercher, 17 Medi
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	Ysgol Rhostryfan
AELODAU'N BRESENNOL	Gwilym L.Williams (cad), Tom Ellis, Michelle Williams, Gwilym V.Thomas, Nerys Evans, Elwyn Jones, Neal Williams, Jason Hunt, Aeron M.Jones
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams (clerc)

1.	**Croeso**	
2.	**Ymddiheuriadau**	
3.	**Datgan Buddiant** Eitem cynllunio – Aeron M.Jones	
4.	**Cadarnhau cofnodion** Cadarnhawyd fod cofnodion mis Gorffennaf yn gywir.	
5.	**Materion i'w trafod:** a. Swydd Clerc – yng nghyfarfod a drefnwyd ar 9fed o Fedi, penodwyd Caryl Lewis yn glerc i Gyngor Cymuned Llanwnda. Gobeithir y bydd Caryl yn dechrau'r gwaith ym mis Hydref. O ran graddfa cyflog, trafodwyd y lefel o ran profiad. Cytunwyd ar y ffigwr o£9 yr awr. b. O ran prynu offer – rhoi uchafswm o £400 + VAT. Danfon cadarnhad o faint ydy'r gost, danfon siec ymlaen. c. Cronfeydd Cist Gwynedd – cadarnhad ein bod wedi derbyn £500 o grant tuag at ddatblygu gwefan newydd drwy Antur Nantlle.	
6.	**Derbyn Adroddiadau**	
7.	**Is-bwyllgorau**	
8.	**Materion Ariannol** Cyfri Cadw: Cyfri Siec: Taliadau: Bethan Williams – cyflog Medi Cyllid y Wlad Medi Hysbyseb swydd – Trinity Mirror	 18334.81 3133.39 418.67 98.40 585.60
9.	**Materion Cynllunio** C14/0836/24/LL – Caer Moel, Dinas – newidiadau i gais blaenorol. Dim sylwadau. C14/0659/24/AM – Codi 6 ty fforddiadwy a mynediad newydd, tir dros y ffordd i Glanrhyd Isaf, Dinas, Llanwnda. AMJ datgan buddiant. Deiseb wedi mynd mewn i'w wrthwynebu, adran gynllunio angen profi angen am y tai. Cynnig eu gwerthu fel plot unigol i rieni/pobl ifanc.	

	C14/0731/24/LL – tir ger Y Goat, Llanwnda - newid amod 2 caniatad cynllunio C09A/0303/24/LL – decio yng nghefn 2 dy ac ail leoli modurdy. Cafwyd ymholiad gan aelod o'r cyhoedd am ddatblygiad ar Heulfryn, Rhostryfan. Nid yw'r cyngor yma yn ymwybodol o unrhyw gais cynllunio. Dim sylw.
10.	**Gohebiaeth:** a. Llythyr gan Bwyllgor Cae Chwarae Rhosgadfan yn nodi eu bod wedi bod yn llwyddiannus gyda chais am grant i Mantell Gwynedd, a'u bod yn mynd i dderbyn £13,000 . Byddant yn ail ffensio, lefelu a wynebu'r safle, a gobeithio gosod yr offer cyntaf cyn diwedd y flwyddyn. b. Cylchgronnau
11.	**Materion Mis Nesa** a) Sgwennu at Swyddfa'r Bost i ofyn be ydy'r diweddara am swyddfa Rhosgadfan. b) Mynyddoed Pawb – cynllun i geisio cadw enw llefydd – angen gyrru ein cefnogaeth. c) ElJ – pont ar lein Bryngwyn, daeth yr afon drosodd ger Garreg Lwyd yn ystod y tywydd garw. Llythyr at Paul Lewin, Rheilffordd Eryri i nodi ein pryder am y bont, awgrymu fod pawb yn dod at ei gilydd i geisio symud y peth ymlaen. Gobeithir maes o law gweithio efo asiantaethau a sefydliadau eraill i geisio am grant i adnewyddu'r bont. d) GVT – bocsys grit – ben allt Dafarn, y bin wedi malu. e) NE – sgwennu llythyr i Express Motors i ddatgan ein siom. f) NE – angen llongyfarch Lleucu Roberts – clerc i ysgrifennu ati. g) JH – wedi cael caniatad ar ran criw y rhandir i gael tynnu giat y llwybr dros dro. h) JH – lamp wedi malu wrth ymyl 19 Bro Wyled i) Cae'r Moel, Alun Tomlinson – Rheilffordd Ffestiniog, Dinas.
	Daeth y cyfarfod i ben am 8.35pm
	Dyddiad Cyfarfod nesaf: Hydref 15fed